OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1822 (Cy.179)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*14 Gorffennaf 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Gorffennaf 2010*
Y n dod i rym - -	*9 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 9 Awst 2010.

Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008(**3**) ("y prif Reoliadau") yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle paragraff 4(3) o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau, rhodder—

"**4.**—(3) Ystyr "labordy profi cymeradwy" yw—

(a) labordy a gymeradwywyd o dan y paragraff hwn;

(b) labordy a gymeradwywyd o dan ddeddfwriaeth gyfatebol mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig;

(c) un o Labordai Cyfeirio Cenedlaethol yr UE; neu

(**1**) O.S. 2008/1792.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2008/3154 (Cy.282).